

Senedd Cymru

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Croeso i gylchlythyr diweddaraf ein Pwyllgor

Mae hwn wedi bod yn dymor rhyfedd a thrist. Bu farw Mohammad Asghar, neu Oscar i'r rhan fwyaf ohonoch chi, ar 16 Mehefin. Diolch yn fawr i bawb a gysylltodd â ni i fynegi eich cydymdeimlad. Mae teyrnged fer i Oscar ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Fel gweddill y byd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn wynebu'r heriau o addasu i weithio'n ddiogel o dan COVID. Y tro diwethaf i ni gysylltu â chi, roeddem yn dechrau cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor o bell. Er i ni brofi rhai mân broblemau technegol, rydym yn falch o ddweud bod cynnal cyfarfodydd o bell wedi bod yn ffordd effeithiol o ganiatáu i'r Pwyllgor gyflawni ei rôl, a dwyn y Llywodraeth i gyfrif ar yr adeg ryfedd sydd ohoni.

Diben y crynodeb hwn o weithgareddau diweddar y Pwyllgor yw ehangu ymgysylltiad yng ngwaith y Pwyllgor, a'ch helpu i roi gwybodaeth ac arbenigedd i swyddogion ac Aelodau. Cafodd ei gynhyrchu gan y tîm Clercio, sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor, a phawb sy'n ei gefnogi, yn dymuno'n dda i'w holl randdeiliaid wrth i bob un ohonom ddelio â chanlyniadau'r pandemig, a dechrau ystyried sut y byddwn yn adfer ar ei ôl.

Mae ffrwd Twitter y Pwyllgor [@SeneddESS](#) yn cynnwys ein holl newyddion diweddaraf, a manylion ymchwiliadau a chyfarfodydd. Bydd yn helpu i'ch cadw i'r funud am ddyddiadau cau ymgynghoriadau a datblygiadau a phenderfyniadau eraill a wneir yn sgil Covid-19.

Gwaith a wnaed - Haf 2020

Effaith COVID-19

Dechreuodd y Pwyllgor gyfarfod eto ar **30 Ebrill 2020**, gyda sesiwn yn archwilio effaith COVID-19 ar yr economi yng Nghymru a'r gefnogaeth a gynigir i fusnes a swyddi. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CBI Cymru, Ffedrasiwn Busnesau Bach Cymru, Cynghrair Twristiaeth Cymru a'r sector undebau llafur. Nododd y pwyllgor fylchau yn y **cynlluniau cymorth busnes a chyflogaeth**, a chanfod bod gweithwyr **hunan-gyflogedig**, a'r sectorau twristiaeth, lletygarwch ac awyrofod,

wedi cael eu taro'n arbennig o galed. Cafodd **crynodeb y Pwyllgor o'r canfyddiadau cychwynnol** ei gyhoeddi ar 4 Mehefin yn gwneud 34 o argymhellion, a chafwyd **ymateb** gan Lywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf yn derbyn 31 o'r rhain.

Ar **11 Mai**, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio eto ar y **gefnogaeth a gynigir i fusnesau gan Lywodraeth Cymru**. Trafodwyd y **Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws**, ynghyd â bylchau parhaus mewn cefnogaeth. Tra eu bod wedi croesawu pa mor gyflym oedd yr ymateb

cychwynnol, gofynnodd yr Aelodau hefyd am gael sicrwydd ynghylch amddiffyn buddsoddiad pellach o arian cyhoeddus rhag twyll posibl.

Ar **1 Mehefin**, bu'r Pwyllgor yn archwilio effeithiau COVID-19 ar **y sector sgiliau**. Codwyd pryderon ynghylch **iechyd a lles prentisiaid, a'r cynydd tebygol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc**. Dywedodd yr Athro Ewart Keep, o'r Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen, wrth y Pwyllgor fod cynnydd sylweddol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc bron yn anochel. Cyhoeddwyd **canfyddiadau cynnar y Pwyllgor ar sgiliau** eu cyhoeddi ar 19 Mehefin, ac roeddent yn gwneud 8 argymhelliad. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar **28 Gorffennaf** gan dderbyn yr holl argymhellion.

Ar **18 Mehefin**, archwiliodd y Pwyllgor **effaith y pandemig ar drafnidiaeth gyhoeddus**. Rhoddwyd cryn sylw i yrrwyr tacsï yn y trafodaethau, ynghyd â'r diwydiannau bysiau a rheilffyrdd. Bu'r aelodau'n holi tystion ar fesurau diogelwch i'r staff a'r cyhoedd. Cymerwyd tystiolaeth gan weithredwyr bysiau, undebau llafur a Maes Awyr Caerdydd.

Ar **2 Gorffennaf**, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ar gynyddu capasiti ac annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio actif, yn dilyn y gostyngiad o 95% mewn gwasanaethau ym mis Mawrth 2020. Anfonodd y Pwyllgor lythyr dilynol at y Gweinidog ar **23 Mehefin** ar gyllid ar gyfer trafndiaeth, a materion yn ymwneud â pholisi.

O ystyried effaith drychinebus COVID-19 ar y **sectorau lletygarwch a thwristiaeth**, ar 2 Gorffennaf, bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod yr heriau parhaus gydag UK Hospitality a Chynghrair Twristiaeth Cymru.

Cynhaliwyd **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau cynnar y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf**.


Ar **16 Gorffennaf** cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a'r Dirprwy Weinidog**. Yn y cyfarfod olaf hwn o dymor yr haf, bu'r Pwyllgor yn holi Gweinidogion ar gynlluniau i helpu'r economi i wella o effaith COVID-19. Dywedodd y Gweinidog y dylid cynnal y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws ar gyfer y sectorau sydd fwyaf agored i niwed.

Galwad Agored am Dystiolaeth

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnal **ymgyngoriad penagored i** archwilio effeithiau COVID-19 ar bob maes o fewn ei gylch gwaith. Gallwch gyflwyno'ch barn trwy e-bostio: SeneddEIS@senedd.cymru.

Datgarboneiddio Trafnidiaeth

Cyhoeddwyd **Adroddiad** (PDF 2,757KB) yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys targedau datgarboneiddio yn ei chynlluniau adfer ar ôl Covid-19 ar 14 Mehefin 2020, a disgwyli'r ymateb erbyn diwedd mis Medi. Mae'r adroddiad yn edrych a yw targedau Llywodraeth Cymru yn rhy uchelgeisiol neu'n gyraeddadwy, ac yn tynnu sylw at yr hyn sydd ar goll o'i chynlluniau cyfredol, a'r hyn y



mae'n rhaid ei gynnwys yn ei strategaeth newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol

Ar 5 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** (PDF 1,080KB) a oedd yn cynnwys 4 argymhelliad. Nid yw'r Llywodraeth wedi ymateb eto ac felly nid oes dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn.

Tasglu'r Cymoedd

Lansiodd y Pwyllgor **ymchwiliad** i Dasglu'r Cymoedd ym mis Chwefror. Sefydlwyd y Tasglu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016, a bydd yn gweithredu trwy gydol y Pumed Senedd tan fis Mawrth 2021. Fe'i sefydlwyd fel catalydd ar gyfer sicrhau adfywiad a thwf cynaliadwy yng Nghymoedd De Cymru.

Ymestynnodd y Pwyllgor ei ddyddiad cau ar gyfer ymgynghori i 9 Ebrill ac mae wedi cyhoeddi **chwe ymateb**. Bydd gwaith Tasglu'r Cymoedd bellach yn cael ei ystyried fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar gynlluniau adfer Covid-19 yn yr hydref.

Rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladu cartrefi

Yn sgil symud i waith COVID-19, sy'n cael blaenoriaeth, penderfynodd y Pwyllgor rannu ei argymhellion o'r ymchwiliad gorffenedig hwn gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid ar ffurf adroddiad drafft. Mae'r Pwyllgor bellach wedi **gosod** (PDF 810KB) yr adroddiad, a disgwylir ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth yn yr hydref.

Gradd-brentisiaethau

Nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cymryd tystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ym mis Mawrth ar gyfer ei ymchwiliad i'r rhaglen beilot gradd-brentisiaethau yng Nghymru, y cyfeiriad y mae'n mynd iddo a'i photensial. Bydd y Pwyllgor bellach yn cyhoeddi adroddiad drafft o'i ganfyddiadau ac yn ystyried y rhain fel rhan o waith yn y dyfodol ar adferiad yn dilyn COVID ar gyfer y sector sgiliau.

Tynnu Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)** ar 16 Mawrth 2020 a chyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, sef y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil, **ddatganiad ysgrifenedig**. Ar 1 Ebrill cyhoeddodd y Prif Weinidog **ddatganiad ysgrifenedig** ar **ddull y Llywodraeth o ymdrin â deddfwriaeth yn dilyn yr achosion o Covid-19**. Ni chafodd y Bil ei flaenoriaethu ar gyfer ei ddywn ymlaen, ond parhaodd i fod yn destun adolygiad parhaus. Ar 15 Gorffennaf 2020, rhoddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wybod fod y Bil yn cael **ei dynnu'n ôl** yn unol â Rheol Sefydlog 26.79.

Edrych tuag at dymor yr hydref

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf wedi bod yn adweithiol, gan archwilio materion brys y mae sectorau yn eu hwynebu, a'r gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru i fusnesau, darparwyr trafndiaeth a sgiliau i oroesi'r storm gychwynnol.

Nawr ein bod wrthi'n pontio o gyfnod yr ymateb brys i'r cyfnod adfer, bydd

gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ymchwiliad i sut y dylai'r adferiad edrych, a sut y gall Llywodraeth Cymru "ailadeiladu'nwell". Bydd Aelodau'n monitro sut mae gwahanol ddiwydiannau a sectorau yn cael eu heffeithio, ac yn canolbwyntio ar faterion fel adfer y rhwydwaith trafniadaeth, a diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn barod i ymgymryd â gwaith adweithiol, gan ddibynnu ar ddigwyddiadau sy'n datblygu.

Parhewch i'n dilyn ni ar [Twitter](#) neu fwrw golwg ar ein [tudalen ar y we](#) er mwyn cadw i'r funud.

Teyrnged i Oscar

Ar 17 Mehefin, talodd Aelodau'r Senedd deyrnged i Oscar yn y Cyfarfod Llawn. Cafwyd sawl gair caredig gan Aelodau o bob plaid, am ei gynhesrwydd a'i garedigrwydd, a'i gyfraniad i'r Senedd a bywyd gwleidyddol yng Nghymru.

Roedd Oscar yn Aelod ymroddedig o'r Senedd a oedd wrth ei fodd gyda'i rôl. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan fyddai'r Pwyllgor ar ymweliadau, roedd wrth ei fodd yn dod i adnabod pobl a chael gwybod beth oeddent yn ei wneud. Mae colled fawr ar ôl Oscar, ac mae ein meddyliau yn dal i fod gyda'i deulu a'i ffrindiau.



Mohammad Asghar
30 Medi 1945 – 16 Mehefin 2020

Newid yn yr aelodaeth

Hoffem groesawu [Suzy Davies AS](#) i'r Pwyllgor. Etholwyd Suzy i'r Pwyllgor ar 5 Awst a bydd yn llenwi'r sedd a adawyd yn wag gan farwolaeth Oscar

Cylch gwaith

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i ymchwilio i ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafniadaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm clericio drwy e-bost: SeneddESS@senedd.cymru

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: [@SeneddESS](https://twitter.com/SeneddESS)

Gwefan:

www.senedd.cymru/SeneddESS

Aelodau'r Pwyllgor



Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AS
Ceidwadwyr Cymreig



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS
Llafur Cymru



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru